

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Rhagfyr 18fed - 2013
am 7.30 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Rhian Hughes (RH), Geraint Parry (Clerc), Gill Cheverton (Is – Gadeirydd (GC), Lewis Davies(LD), Carwyn Jones(CJ), Alwena Roberts (AW) a Maldwyn Williams (MW)

2. Ymddiheuriadau - Derbyniwyd gan Cyng. Dafydd Pritchard a Alwyn Rowlands

3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 o Dachwedd fel rhai cywir gan Cyng. M Williams, eilio gan Cyng. R Hughes.

Dechreuodd y cyfarfod gan fynd yn syth i drafodaeth Tir Comin lleol gan Leah Williams.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

- **Tir Comin, Leah Williams** - eglurodd y sefyllfa o ran y grantiau lle mae Menter Môn wedi derbyn arian o Ewrop trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig (RDP). Cynllun yma yn dod i ben mis Mawrth nesaf. Mae ansicrwydd o amgylch dyfodol y grant yma, ond mae ffynhonnell eraill ar gael, fel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF).
Nodwyd gan Cyng. L Davies fod Neuadd y Pentre' wedi cael grant o £20,000 tuag at y paneli solar ac y byddai'n annhebygol y byddai Llanddona yn llwyddiannus blwyddyn nesaf o'r ffrwd arian yma. Awgrymwyd fod ym manteisiol i'r Cyngor Cymuned gwneud ceisiadau am grantiau yn uniongyrchol, gan fyddai hyn yn fuddiol, lle mae Leah yn cynnig cymorth os oes angen. Awgrymwyd hefyd ein bod yn creu rhestr o flaenoriaethau o'r gwaith er mwyn cael adnabod y grantiau sydd ar gael, a chael gwirfoddolwyr i wneud y peth o'r gwaith. Leah i helpu gyda hyn.
Nodwyd bob comin Llaniestyn gyda statws SSI lle mae nifer o goed helyg angen ei dorri. Hefyd mae yna gytundebau rheoli gallem greu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, lle awgrymwyd gwahodd i John Radcliffe at ein cyfarfod nesaf.
- Codwyd y cwestiwn gyda Leah ynglŷn â thalu am chwistrellu'r "japanese knotweed" y tro hwn, lle eglurwyd bod Menter Môn wedi talu am y gwasanaeth hwn yn y gorffennol, ond erbyn hyn nid oes unrhyw arian ar ôl.
- **Clawdd ar Mynydd Crafoed** - esboniodd y Clerc bod DP yn meddu gwneud y gwaith o dorri clawdd y tro yma. Clerc i gysylltu gyda Mr + Mrs Shamash i egluro'r sefyllfa. Gyda nifer o ardaloedd eraill angen ei dorri, penderfynwyd cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith.
- **Wefan i'r Cyngor Cymuned** - RH wedi ymweld â safle Cwm Cadnant a sylwi y gallech newid y cofnodion. Clerc wedi ymgynghori gyda Neil Summers ynghylch y mater, lle mae'n datgan y byddai ein safle yn defnyddio technoleg wahanol, lle y gall lawr lwytho dogfen darllen yn unig. Cofnodion a manylion cyswllt y cynghorwyr i gael ei gyflenwi i Neil. Cyfrif e-bost hefyd wedi cael ei greu - RH yn gofyn am y posibilrwydd i gael sganio dogfennau gan ddefnyddio ffôn symudol.

5. Adroddiad gan y Cynghorwyr

LD - Fynwent Eglwys St Iestyn, wedi trafod yn Pwyllgor Gwaith 2/12/13 y pwerau pryniant gorfodol a bod angen cyflwyno cais am gyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2014/15. Penderfynwyd anfon llythyr i'r prif weithredwr y Cyngor Sir gan ofyn, a oes arian i - cyflogi'r broses pryniant gorfodol, pwrcau'r tir a gwaith cysylltiedig ar y fynwent, gan ofyn am ymateb erbyn cyfarfod nesaf.

LD - llithrad tir ger y traeth, Cyngor Sir nawr yn gweithio gyda thirfeddianwyr.

CJ - Llwybr Tai Bach, wedi derbyn ymateb gan Trefor Lloyd Jones, swyddog Cyngor Sir, wrth egluro fod wedi cynnal nifer o gyfweiliadau lleol gyda defnyddwyr y llwybr. Disgwylir adroddiad drafft mis Ionawr/Chwefror, lle bydd ymgynghoriad wedyn o 4 wythnos yn cael ei gynnal.

Cadeirydd yn gwerthfawrogi'r gwaith mae'r Cynghorwyr lleol wedi ei wneud gyda chael estyniad i'r ffordd ger fferm Bryn Bela, ac i anfon llythyr o werthfawrogiad i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

6. Datgan Diddordeb

Cyng. L Davies ar gais 41C125B/EIA/RE.

7. Ceisiadau Cynllunio

- 41C125B/EIA/RE - cais lawn ar gyfer codi tri twrbin wynt 800kw gydag uchder hwb hyd at 55m, a uchder blaen unionsyth hyd at 81m, gwybodaeth ychwanegol yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy - Cytunwyd i wrthwynebu'r cais.

Er Gwybodaeth

- 22C96H – cais llawn ar gyfer adnewyddu cais rhif 22C96B ar gyfer gosod system trin carffosiaeth ar dir ger Wern Hall, Llanddona – wedi ei caniatáu.

8. Llythyrau gan y Swyddfa Gofrestru Tir

Leah yn adrodd bod Menter Môn wedi cael ffurflen rhybudd B133 gan swyddfa gofrestru ac wedi anfon y ffurflen UN4 ar gyfer y tir comin o gylch yr Ysgol. Mae ansicrwydd o amgylch perchnogaeth y tir hwn ac yn disgwyl i'r Cyngor Sir darparu tystiolaeth.

Gan fod yr Ysgol nawr yn mynd i gau, penderfynwyd anfon llythyr i Menter Môn i ofyn iddynt drosglwyddo'r tir i'r Cyngor Cymuned. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn tir comin eraill sy'n eiddo i Menter Môn.

Clerc yn egluro fod wedi trafod cais CYM369511 gyda Swyddfa Gofrestru (tir Porth y Dref) lle mae'r tir yma wedi ei gofrestru yn enwau I Jones, R Hughes a M Roberts. Penderfynwyd ceisio cyngor cyfreithiol, Clerc i drefnu hyn.

Wedi derbyn ymateb i gais CYM131257 tir Comin Llaniestyn a CYM526084 tir yn Llanddona, bod hysbysiad wedi cael ei anfon at y buddiolwr yn hysbysu ein cais hyd nes 10fed a 6ed o Ionawr i wrthwynebu.

9. Cyfrifon - cytunwyd i dalu:-

- Countryside Management, trin "japanese knotweed" - £144.00
- Hurio Ystafell Ysgol, Rhagfyr - £20
- Praespt 2014-15 - dilyn trafodaeth, penderfynwyd peidio â chynyddu'r praespt ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15, pawb yn gytûn.

10. Gohebiaeth

Llythyr - Banc, cyfrif maes chwarae

e-bost - Llwybr Tai Bach, Mr E Evans

Llythyr - diolch gan Ffion Haf Thomas

Pecyn - Chwarae dros Gymru

Llythyr - presaept 2014/15, Cyngor Sir

Llythyr - cynllun datblygu lleol ar y cyd

11. UFA:

- Cyng. C Jones i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir o greu estyniad i faes parcio yn Bonc y Felin.
- Cyfrif y Cae Chwarae - wedi derbyn llythyr gan y banc wrth egluro fod y cyfrif heb gael ei defnyddio ers peth amser, a bydd yn ei wneud yn anweithredol. Cynigwyd gan RH, i drosglwyddo'r cyfrif yma i gyfrif y Cyngor Cymuned, pawb yn gytun. Clerc i fynd i'r banc i drafod y mater.
- Clerc yn rhannu cofnodion cyfarfod blynyddol.
- MR - gyda thair sedd wag, os ydym yn gwybod am unrhyw un gyda diddordeb ddod ar y Cyngor Cymuned?
- RH - safon llythyrau o gefnogaeth. Penderfynwyd pan fyddwn yn anfon llythyrau o gefnogaeth yn y dyfodol, bod angen cynnig manylion a ddisgwylir, ar Clec i anfon drafft o'r llythyr i'r Cadeirydd.

12. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.28 o'r gloch.

Penderfynwyd Cyfarfod nesaf 22/01/14 am 7.30.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad